

LLAIS A DEWIS
- YMGYNGHORIAD

CRYNODEB O'R
YMATEBION

Cynnwys

Tudalen

Cyflwyniad	3
Crynodeb o'r Ymatebion	5
Atodiad A – Rhestr o Ymatebwyr	10

CYFLWYNIAD

Mae'r ddogfen hon yn crynhoi'r ymatebion i'r ddogfen ymgynghori, *Llais a Dewis*, yn ymwneud â chynigion i roi'r hawl i blant apelio (Rhan 1) a chyflwyno honiadau o wahaniaethu ar sail anabledd (Rhan 2) i Dribiwnlys Anghenion Addysgol Arbennig Cymru (TAAAC).

Y Broses Ymgynghori

Cyflwynwyd y dogfennau ymgynghori Llais a Dewis mewn dwy ran : -

- 23 Mai 2008 (Rhan 1: Hawl arfaethedig i blant apelio i'r TAAAC) a
- 5 Medi 2008 (Rhan 2: Hawl arfaethedig i blant eu hunain wneud honiadau mewn perthynas â gwahaniaethu ar sail anabledd i'r TAAAC)

Cyhoeddwyd fersiwn o Ran 1 a 2 ar gyfer plant a phobl ifanc. Hefyd, cynhaliwyd a hwyluswyd gweithdai mewn 3 ysgol (2 Ysgol Arbennig ac Ysgol Uwchradd Briff Ffrwd gydag Uned AAA ar y safle) ledled Cymru er mwyn casglu barn plant am y cynigion.

Er mwyn darparu cyfleoedd i gasglu ymatebion eraill, cynhaliwyd a hwyluswyd dau weithdy cyhoeddus yng Nghonwy a Chaerdydd cyn diwedd y cyfnod ymgynghori (3 Hydref 2008)

Y Gynulleidfa

Ceisiwyd amrediad eang o ymatebion, gan gynnwys barn plant a phobl ifanc; Comisiynydd Plant Cymru; Awdurdodau Lleol; Awdurdodau Esgobaethol; Cyrff Gwirfoddol; Seicolegwyr Addysg; Partneriaethau Plant a Phobl Ifanc; Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru; Gwasanaethau Plant; Cymdeithas y Cyfreithwyr, Y Comisiwn Gwasanaethau Cyfreithiol, Tribiwnlys AAA Cymru; Gwasanaethau Cymdeithasol, Undebau'r Athrawon, y Gwasanaeth Tribiwnlysoedd; Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru; Partneriaid sy'n ymwneud ag Anghenion Addysgol Arbennig, a sampl o 10% o ysgolion.

Ymatebion

Derbyniwyd cyfanswm o 98 o ymatebion, sef 74 ar gyfer rhan 1 (gan gynnwys 20 ymateb gan Bobl Ifanc) a 24 ar gyfer rhan 2.

Dadansoddiad o'r Ymatebion

Rhan 1	
Awdurdodau Lleol	14
Cyrff Gwirfoddol	19
Ysgolion	2
Rhieni	12
Pobl Ifanc	20
Eraill	7
CYFANSWM	74

Rhan 2	
Awdurdodau Lleol	11
Cyrff Gwirfoddol	7
Ysgolion	0
Rhieni	4
Pobl Ifanc	0
Eraill	2
CYFANSWM	24

CRYNODEB

Roedd cyfran eang (48) o ymatebwyr yn nodi eu cytundeb â'r egwyddor o ymestyn i blant yr hawl i wneud apeliadau am AAA a honiadau o wahaniaethu ar sail anabledd. Roedd 14 allan o 20 o blant a phobl ifanc a ymatebodd yn cytuno y dylai plant ag anableddau hefyd fod â hawl i wneud honiadau o wahaniaethu ar sail anabledd. Dim ond un ymatebydd a oedd â gwrthwynebiad penodol i'r egwyddor.

Roedd yna bryder, fodd bynnag, ynglŷn â'r mecanweithiau, y cyllid a'r ddarpariaeth angenrheidiol ar gyfer rhoi'r cynigion hyn ar waith. Mynegodd pedwar ymatebydd bryderon ynglŷn â chynigion yr ymgynghoriad, gan gredu'n gryf, yn wyneb cymhlethdod a natur arloesol yr hyn a awgrymir, y byddai'n fuddiol treialu'r cynigion cyn eu cyflwyno'n llawn.

Roedd amryw o ymatebion (7) yn mynegi'r farn y dylid annog a chefnogi plant a phobl ifanc i gymryd rhan lawn ym mhob cam o'r broses addysg (gan gynnwys gwaharddiadau a derbyniadau)

Prawf Cymhwysedd

Cafwyd ymatebion amrywiol i'r mater ynghylch cymhwysedd: roedd 3 o'r farn y byddai prawf cymhwysedd yn diystyru'r plant sydd fwyaf angen yr hawl, teimlai 11 na ddylid cynnal prawf, y dylai'r hawl i apelio fod yn ddiamod, ac y dylid tybio bod plentyn yn gymwys oni phofir yn wahanol a bod gosod prawf cymhwysedd yn arfer gwahaniaethol ynddo'i hun.

Mewn 11 ymateb nodwyd ei bod yn anodd iawn gosod prawf oherwydd natur AAA ac na allai fod un prawf addas i bawb. Mynegwyd pryder mewn 3 ymateb y gallai mater cymhwysedd ddod yn fater o anghydfod cyfreithiol, ac y byddai prawf cymhwysedd ffurfiol hefyd yn debygol o ychwanegu at fiwrocratiaeth y weithdrefn apelio, yn peri oedi ac yn brofiad ingol i'r plentyn. Roedd 3 yn cytuno y dylai fod prawf, ond y dylid ei osod ar lefel isel.

Roedd 9 o'r ymatebion gan oedolion yn nodi y dylai prawf fod yn seiliedig ar braf cymhwysedd "Gillick", hy yn seiliedig ar oedran, aeddfedrwydd a lefel dealltwriaeth. O blith y plant a'r bobl ifanc a ymatebodd i'r papur ymgynghori, roedd 13 o'r farn na ddylid sefydlu cymhwysedd yn ôl oedran, ac y dylai fod ar sail lefel dealltwriaeth y plentyn. Ategwyd y farn honno yn y gweithdai a gafodd eu hwyluso yn y 3 ysgol.

Roedd 9 ymateb yn nodi y dylid asesu cymhwysedd ar ddechrau'r broses Asesu Statudol. Roedd 7 o'r farn bod angen cryfhau mynediad plant at wybodaeth ac eiriolaeth ym mhob agwedd sy'n effeithio arnynt, yn hytrach nag yn achos apeliadau yn unig, ac y dylid cynnwys plant a phobl ifanc ym mhob cam o'r broses addysg ac ar y pwynt cynharaf posibl.

Roedd yna amrediad barn eang hefyd ynglŷn â phwy ddylai benderfynu ynghylch cymhwysedd plentyn i gyflwyno apêl neu hawliad. Roedd 4 yn ffafrio dyfarniad gan TAAAC ynghylch cymhwysedd, roedd 23 yn ffafrio gweithiwr

proffesiynol neu eiriolwr annibynnol hyfforddedig, gyda chyfraniad gan weithwyr proffesiynol mewn ysgolion, seicolegwyr addysg, rhieni, meddygon/meddygon teulu. Teimlai'r mwyafrif o'r rhieni a ymatebodd y dylai fod yn rhywun sy'n adnabod y plentyn yn dda.

Gwneud Plant yn Ymwybodol o'u Hawliau

Roedd nifer (16) o'r ymatebwyr o'r farn mai amgylchedd yr ysgol yw'r lle gorau i hysbysu plant ynglŷn â'u hawliau i apelio neu wneud honiadau trwy amrywiol gyfryngau a fformatau, gan gynnwys posterï a thafenni addas i blant (20). Roedd nifer sylweddol (27) o'r farn y dylid rhoi copi o bob gohebiaeth ynglŷn â Phrosesau Statudol AAA i'r plentyn fel mater o drefn (eu cyflwyno mewn fformat hawdd ei defnyddio) ym mhob cam o'r asesiad datganiad. Roeddent hefyd o'r farn y dylid anfon y llythyr yn nodi penderfyniad yr Awdurdod Lleol at yr ysgol, gyda'r Cydlynedd Anghenion Addysgol Arbennig neu'r Cynorthwydd Cymorth Dysgu yn egluro'r llythyr i'r plentyn (16) ac y dylai plant fod yn gallu mynd at Wasanaeth Eiriolaeth Arbenigol i ddatrys unrhyw anghydfod neu gamddealltwriaeth o fewn y teulu.

Yn y mwyafrif sylweddol (10) o'r 12 ymateb gan rhieni, nodwyd fod angen gwell cyfathrebu ym mhob rhan o'r broses, gydag eiriolwyr/gweithwyr allweddol yn camu i mewn yn gynnar yn y broses. Awgrymodd amryw y dylid annog Awdurdodau Lleol i siarad â rhieni a'u plentyn fel mater o drefn, gan egluro'r penderfyniad, ac ymestyn y ddyletswydd i weithio mewn partneriaeth â rhieni, er mwyn sicrhau bod disgyblion yn cael eu cynnwys mewn trafodaethau a phenderfyniadau (sydd eisoes yn arfer da) gan gyflwyno'r wybodaeth ar ffurf addas i'w lefel o ddealltwriaeth. Awgrymwyd y gellid ymestyn rôl y swyddogion cyswllt i gyflawni'r gofyniad hwn. Nodwyd, fodd bynnag, bod i hyn hefyd oblygiadau cyllido.

Roedd sawl ymateb (6) yn nodi bod angen sefydlu safonau ac arferion cyffredin ledled Cymru ar gyfer system o ddatrys anghydfod, a bod yn rhaid i Awdurdodau Lleol fod yn fwy rhagweithiol wrth hysbysu rhieni a phlant ynglŷn â'r trefniadau ar gyfer, neu ynghylch mynediad at Bartneriaethau Rhieni a Gwasanaethau Datrys Anghydfodau.

Gwell cyfranogiad

Teimlai nifer o ymatebwyr (13) y byddai natur gymhleth amryw o'r materion yn ei gwneud yn anodd i blant a phobl ifanc ag Anghenion Addysgol Arbennig fod â barn glir ynghylch y materion hyn ac y byddai'n anodd iddynt fynegi eu barn.

Nododd yr ymatebwyr y dulliau canlynol o gynyddu cyfranogiad

- tafenni gwybodaeth/pamffledi a phosterï wedi'u haddasu'n briodol mewn ysgolion a manau cyhoeddus amlwg;
- cynghorau ysgol;
- fforymau pobl ifanc, grwpiau cymorth, clybiau ieuenctid;
- Ymgyrch genedlaethol, aml-gyfryngol a chyfeillgar i blant;
- Llinell gymorth annibynnol /gwefannau;

- Trafodaeth ryngweithiol (ar MSN, Facebook ayyb)

Roedd rhai ymatebion (11) yn canolbwyntio ar yr anghydraddoldeb o ran grym a mynediad at wybodaeth rhwng yr Awdurdod Lleol, rhieni/gwarcheidwaid a'r plentyn. O safbwynt uchafiaeth yr hawl i apelio, roedd 3 ymatebydd yn holi a ddylai hyn orwedd gyda'r plentyn ynteu'r rhiant.

Roedd 7 ymatebydd o'r farn bod y cynigion yn debygol o arwain at gynyddu'r potensial o anghytgord ac anghytundeb rhwng plentyn a rhiant neu rhwng plentyn ac ysgol. Roeddent yn bryderus ynghylch yr effaith emosiynol ar y berthynas rhwng rhieni/athrawon, a hefyd y posibilrwydd o beri gofid emosiynol pe na bai'r apêl yn llwyddiannus.

Mewn tri ymateb, nodwyd bod anghenion plant yn debygol o fod yn wahanol i anghenion rhieni, bod angen ehangu ac addasu'r system bresennol er mwyn sefydlu dull mwy plentyn-ganolog, a bod angen buddsoddi'n helaeth mewn hyfforddiant a datblygu gwasanaethau eiriolaeth. Credai amryw (12) bod angen cryfhau'r system bresennol a'i gwneud yn fwy cadarn er mwyn sicrhau bod barn plant yn cael ystyriaeth mor fuan â phosibl ac wedi'u cynrychioli'n glir yn ystod y broses asesu statudol cyn bod unrhyw gwestiwn o broses apelio.

Eiriolaeth

Roedd nifer fechan o ymatebwyr (5) o'r farn y dylid sefydlu gweithdrefnau/protocolau cenedlaethol er mwyn sicrhau dull gweithredu cyson, ac y dylid cyhoeddi canllawiau a safonau. Roedd 38 o ymatebwyr o'r farn y dylai gwasanaethau eiriolaeth fod yn annibynnol ar yr Awdurdodau Lleol.

Teimlai nifer o ymatebwyr (7) y dylid ymestyn y gwasanaethau eiriolaeth i feysydd eraill o fewn y fframwaith Anghenion Addysgol Arbennig ee mewn adolygiadau blynyddol o'r datganiad (ac y byddai angen cyllid i hwyluso cynnydd mewn lefelau gwasanaeth). Roedd yna anghysondeb canfyddedig yn y modd ac yn y graddau i'r hyn y mae Awdurdodau Lleol yn casglu barn plant yn rhan o'r broses Asesu Statudol, a pha un ai a ddylai hyn fod yn rhan o adolygiad cyfredol o'r Fframwaith AAA.

Nododd nifer fawr o ymatebwyr (38) yr angen am eiriolwr annibynnol neu ffrind ymgyfreitha, a bod ar blant angen eiriolwr/cynrychiolydd proffesiynol a rhywun o'u dewis eu hunain i fod yn gefn personol. O safbwynt cymorth, roedd pob un o'r 12 ymateb gan rieni yn nodi bod cysondeb yn bwysig.

Hyfforddiant ac Adnoddau angenrheidiol

Roedd y mwyafrif a ymatebodd i'r cwestiwn hwn (11) o'r farn bod hyfforddiant mewn dulliau cyfathrebu ar gyfer gweithio'n effeithiol â phlant ag anableddau yn hanfodol i staff Awdurdodau Lleol, Partneriaeth Plant, Eiriolwyr Annibynnol a'r Tribiwnlys. Roedd tri o'r farn bod yn rhaid safoni hyfforddiant i eiriolwyr ar draws Cymru. Awgrymodd un y dylid penderfynu ynghylch anghenion o ran

hyfforddiant ac adnoddau yn rhan o'r Gwasanaeth Eirioli Arbenigol Integredig yng Nghymru, sydd i'w comisiynu gan y Partneriaethau Plant a Phobl Ifanc.

Cyfeiriodd nifer o ymatebwyr (6) at yr angen am gyllid digonol, gan alw am roi ystyriaeth lawn i'r oblygiadau cyllido sy'n wynebu Awdurdodau Lleol. Roedd nifer fechan (3) yn mynegi pryder na ddylai cyllid ar gyfer eiriolaeth ddeillio o wasanaethau AAA rheng flaen, sydd eisoes dan straen.

Nodwyd y costau canlynol

- darparu gwybodaeth i blant,
- darparu gwasanaethau eirioli
- darparu hyfforddiant i blant, ysgolion ac Awdurdodau Lleol
- hyfforddi eiriolwyr i gyflwyno'u barn annibynnol am blant
- costau i ysgolion ac Awdurdodau Lleol wrth ymgymryd â dyletswyddau ychwanegol a gweinyddu lefelau pellach o fiwrocratiaeth.
- Costau gweinyddu ychwanegol i TAAA(C)
- Costau posibl apeliadau ychwanegol i'r Uchel Lys.

Cymorth Cyfreithiol

Nodwyd mewn amryw o ymatebion (17) na ddylid dibynnu ar gymorth cyfreithiol gan y byddai'n gosod plant nad ydynt yn bodloni'r meini prawf dan anfantais.

Roedd amryw (9) yn teimlo bod angen i'r rhai sydd heb hawl i Gymorth Cyfreithiol gael eu cynrychioli gan wasanaeth eiriolaeth plant arbenigol ac annibynnol a dylai cyllid wedi'i ddiogelu fod ar gael.

Nodwyd mewn tri ymateb y dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru ymchwilio i'r posibiladau o sefydlu cynlluniau ariannu anuniongyrchol ar gyfer rhwydweithiau cymorth cydgysylltiedig, megis cynrychiolaeth trwy ISAS, a fyddai'n derbyn cyllid digonol i gyflawni'r dyletswyddau hyn.

Er bod nifer o ymatebion yn dadlau bod angen mabwysiadu dull wedi'i dargedu, nodwyd pryderon y gallai mynediad at gymorth cyfreithiol i'r plentyn arwain at gynnydd mewn apeliadau drwy ddirprwy a gwasanaethau cyfreithiol ac eirioli. Gallai mwy o ymglymiad cyfreithiol arwain at ddefnyddio llai ar wasanaethau datrys anghydfod a gwasanaethau cyfryngu.

Apeliadau Drwy Ddirprwy

Ailadroddodd pump o ymatebwyr y farn ei bod yn anodd dod o hyd i ateb i'r broblem o gamddefnyddio apeliadau drwy ddirprwy heb gyfyngu ymhellach ar hawl plant i gael cynrychiolaeth annibynnol. Roeddent o'r farn y byddai "apeliadau drwy ddirprwy" yn cynyddu. Roedd saith yn teimlo y gellid mynd i'r afael â hyn wrth i eiriolwr arbenigol y plentyn a chefnogwr annibynnol y rhieni weithio gyda'i gilydd, ac y dylid rhoi arweiniad clir iawn o ran derbyn cyfarwyddiadau gan y plentyn, yn hytrach na'r rhiant/rhieni. Roedd pedwar ar ddeg o'r farn y byddai gwell cyfathrebu, a chynnwys cynghorydd/eiriolwr yn

gynharach yn y broses, ynghyd ag ailfeddwl am y gwasanaeth partneriaethau rhieni, gan ganiatáu gwell mynediad, yn arwain at nifer fach iawn o apeliadau gan blant, gan mai'r cam olaf un yw apeliadau yn aml iawn.

Teimlai tri ymatebydd y dylid ailystyried y cynigion hyn yn unol â'r adolygiad cyfredol o'r holl broses asesu statudol, y dylai'r cynigion fod wedi'u sefydlu o fewn y broses honno, ac y dylai'r pwyslais fod ar gyfranogiad effeithiol gan y plentyn yn hytrach na sicrhau hawl annibynnol i apelio.

Yn olaf, cyfeiriodd amryw o ymatebwyr at oblygiadau cadarnhaol posibl y cynigion hyn i Blant sy'n Derbyn Gofal, gan eu bod o'r farn bod yna wrthdaro buddiannau posibl o fewn y system i Awdurdodau Lleol ar hyn o bryd. Nododd nifer fechan yr angen i ymchwilio i'r rhesymau pam fod caran uwch o Blant sy'n Derbyn Gofal â datganiad o gymharu â phlant eraill.

RHESTR O YMATEBWYR

Rhan 1

Canolfan Cyfraith Plant

Gwasanaeth Tribiwnlysoedd, Y Weinyddiaeth Gyfiawnder

Gwasanaeth Tribiwnlysoedd, Y Weinyddiaeth Gyfiawnder

Suzanne Foster, Rhiant

Scope Cymru

Cymdeithas Genedlaethol Prif Seicolegwyr Addysg (Cymru)

Y Gwasanaeth Addysg Catholig

Caroline Morris,

Is-adran Gwasanaethau Plant, Caerffili

Llywodraethwr AAA a Chydlynnydd Anghenion Addysgol Arbennig, Ysgol

Basaleg, Casnewydd

Scope Cymru

Awtistiaeth Cymru

Grŵp Cynhwysiant CCAC, Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam

Plant yng Nghymru

Cyngor Sir Ddinbych

Y Gymdeithas Genedlaethol i Blant Byddar

Cynhwysiant Disgyblion, Cyngor Sir Powys

Cyngor Sir Rhondda Cynon Taf

Dysgu Addysg a Chynhwysiant, Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili

Y Cyngor Cyfiawnder Gweinyddol a Thribiwnlysoedd

NUT Cymru

Gwasanaeth Eiriolaeth Ieuencid Cenedlaethol (NYAS)

Gwasanaeth Partneriaethau Rhieni CAB Sir y Fflint

AAI Castell Nedd Port Talbot

Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful

Adran Ymarferwyr Cynhwysiant, Cyngor Sir Caerfyrddin

RNID Cymru

Coleg Brenhinol y Therapyddion Iaith a Lleferydd

SNAP Cymru

Uwch Seicolegydd Addysg, Cyngor Sir Abertawe

Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol, Bangor

Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen

Estyn

Susan Uphill, Rhiant

Narda Hurley, Rhiant

Amanda Loveday-Morris, Rhiant

Anita Krill, Rhiant

SNAP NPT

Susan Elizabeth Rayner, Cylch Meithrin Llanbedrog

Coral Banks, Gwarchod Plant

Bethan Beech, GAP – Cyngor Gwynedd

Shirley Coldewell,

Manon Williams, Coleg Menai

Abi Methley,

Ruth Bridge, Rhwydwaith Rhieni

Karen Mapley, Rhiant

Siane Northey, Rhwydwaith Rhieni Caerffili
Alexandria Luise McGinn, Coleg Menai, Llangefni
Llinos Wyn Evans, Coleg Menai
Dim Enw,
Dim Enw,
Ffion Môn Roberts, Coleg Menai, Llangefni
Sian Lloyd Williams, Coleg Menai
Sioned Williams, Coleg Menai
Kelly Anne Jones, Coleg Menai, Llangefni
Sioned Wynne Roberts,
Cirsty Williams,
Rhian Emma Roberts, Coleg Menai, Llangefni
Lyndsey Aindow, Coleg Menai
Katie Saunders, Coleg Menai
Gemma Turner, Coleg Menai, Llangefni
Laura Chadwick-Roberts, Coleg Menai
Rebecca Jones, Coleg Menai
Nia Wyn Jones,
Sgiliau
Biwro Cenedlaethol i Blant ag Anableddau
Kate Wyke, Rhiant, Cymorth i Rien, Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam

Gofynnodd 8 ymatebydd arall am gael cadw eu hymateb yn gyfrinachol

Rhan 2

Graham Edwards, Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam
Caroline Morris
Beverly Mills, Is-adran Gwasanaethau Plant, Caerffili
Maggie Bowen, Awtistiaeth Cymru
Sarah Ellis, Dysgu Addysg a Chynhwysiant, Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili
John Mitson, Cynhwysiant Disgyblion, Cyngor Sir Powys
Catherine M. Lewis, Plant yng Nghymru
Jayne Dulson, Cyfarwyddwr, Y Gymdeithas Genedlaethol i Blant Byddar, Cymru
Philip Monaghan, Cymdeithas Genedlaethol prif Seicolegwyr Addysg (Cymru)
Elena Fowler, NYAS
Chriss Abbott, Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful
Brett Pugh, Cyngor Dinas Casnewydd
K Napieralla, AALI Castell Nedd Port Talbot
M Denholm, Adran Ymarferwyr Cynhwysiant, Cyngor Sir Caerfyrddin
Denise Inger, SNAP Cymru
Rosemary Grubb, Cyfarwyddiaeth Dysgu Gydol Oes a Hamdden Sir Fynwy
Roger Bishop, Tros Gynnal
Gaye Sheridan, Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen
Mike Munting Arolygiaeth Ei Mawrhydi, Estyn
Ruth Bridge, SNAP Cymru – Cynrychiolydd Rhwydwaith Rhieni
Sian Northey, Rhwydwaith Rhieni
Karen Mapley, Rhiant
Sue Scott, Making tracks
Carly Sheen, Y Cyngor Cyfiawnder Gweinyddol a Thriwlynlysoedd